

Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

Sally Holland



#EinCymru / #OurWales

Ar ddydd Gŵyl Dewi eleni rydyn ni'n gofyn i ysgolion, clybiau ieuenctid a sefydliadau ledled Cymru ymuno â ni i ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth.

Rydyn ni eisiau i holl blant a phobl ifanc Cymru gael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod, ac mae hwn yn gyfle gwych i amlygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru i helpu i wireddu hynny.

Byddwn ni'n defnyddio'r hashnod **#EinCymru** i rannu negeseuon sy'n hybu ac yn dathlu'r gwerthoedd hyn, ac rydyn ni'n gwahodd eraill i wneud yr un peth.

Ynghyd â negeseuon sy'n dathlu amrywiaeth, byddwn ni'n defnyddio'r hashnod **#EinCymru** i rannu adnoddau a allai helpu plant a phobl ifanc ledled Cymru i archwilio a hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cefndir

Yn ddiweddar fe wnaethon ni greu adnodd oedd yn ceisio [mynd i'r afael ag Islamoffobia](#) ac yn amlygu hawl pob plentyn i gael eu trin yn gyfartal.

Ar ddydd Gŵyl Dewi, rydyn ni eisiau i ysgolion a sefydliadau ymuno â ni i ddathlu'r hawl hon.

Chwarae rhan

Y cyfan mae angen i chi wneud yw anfon trydariad (tweet) ar 1 Mawrth gan ddefnyddio'r hashnod **#EinCymru**, neu **#OurWales** yn Saesneg.

Os oes gennych chi adnoddau neu ddeunyddiau i'w rhannu a allai helpu ysgolion i hybu amrywiaeth, pwysleisio cydraddoldeb, neu ddathlu gwahaniaethau, bydden ni wrth ein bodd petaech chi'n defnyddio'r un hashnod i rannu'r rheiny.

Enghreifftiau o negeseuon trydar

Rydyn ni eisiau i **#EinCymru** fod yn rhywle lle mae pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Dylai **#EinCymru** fod yn rhywle lle mae gan bawb hawl i fyw bywyd llawn, heb ystyried oed, rhywedd, rhywioldeb na hil.

Rydyn ni wedi creu adnoddau i gefnogi ysgolion i herio stereoteipiau negyddol **#EinCymru** – DOLEN

Cysylltu â ni

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am **#EinCymru**, cysylltwch â Lewis Lloyd ar 01792 765612 neu lewis.lloyd@complantcymru.org.uk